**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021 DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Michelle Hicks (Secretary) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Andrea Prosser (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Prif Swyddog Masnachol<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG** | |
| **No. 5** | **CYNNIG I YMGYNGHORI AR GYNNYDD YNG NGHAPASITI YSGOL ARBENNIG PEN Y CWM**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth – Addysg a Thrafnidiaeth.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg manwl o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ar y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am benderfyniad gan y Pwyllgor Gweithredol yn unol â'r cynnig i symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a nododd | |

elfennau'r ad-drefnu ysgol a dywedodd bod angen cynnal ymgynghoriad ffurfiol er mwyn cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm gan fod y Cyngor wedi cynnig cynyddu capasiti disgyblion gan dros 10% (o 120 i 175). Rhoddwyd trosolwg o'r ymgysylltu â'r cyhoedd, ymatebion ysgrifenedig a nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddata'r ohebiaeth a dderbyniwyd o ran lefel y gefnogaeth ar gyfer y cynnig:-

- Cefnogi'r cynnig yn llawn - 9 (82%)
- Cefnogi'r cynnig yn rhannol - 1 (9%)
- Dim yn cefnogi'r cynnig - 1 (9%)

Adroddwyd ymhellach y bu ymgysylltu cyfryngau cymdeithasol helaeth, sy'n dangos y gefnogaeth fawr. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r Fforwm Ieuenctid, y Cyngor Ysgol ac Estyn. Yn nhermau'r dadansoddiad thematig, amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y prif themâu a ddeilliodd o'r dadansoddiad o ymatebion, fel sy'n dilyn:--

- Darpariaeth/cyfleusterau arbenigol – 17
- Galw cynyddol – 16
- Effaith hirdymor –15

I gloi, cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol mai cyfradd ymateb cymharol isel fu i'r ymgynghoriad, fodd bynnag nid yw ymateb isel yn anarferol lle mae lefelau uchel o gymorth. Teimlwyd fod yr ymgynghoriad yn dangos fod cefnogaeth eang i gynyddu'r capasiti presennol yn Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm.

Croesawodd yr Aelod Gweithredol Addysg yr ymateb a gafwyd gan fod nifer o fanteision mewn ymestyn capasiti, yn neilltuol y byddai cynyddu capasiti yn galluogi mwy o blant i gael eu haddysgu yn nes at eu cartrefi.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda dogfennau cysylltiedig a chytunwyd i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol (Opsiwn 1).